



OFFER YNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 243 (Cy. 63)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar
gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol
(Cymru) (Diwygio) 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2901 (Cy. 280)) ("Rheoliadau 2013").

Mae Rheoliadau 2013 yn sicrhau bod yr hawl i gyfnodau o absenoldeb teuluol ar gael i aelodau awdurdodau lleol. Mae pum math o absenoldeb teuluol: absenoldeb mamolaeth; absenoldeb newydd-anedig; absenoldeb mabwysiadydd; absenoldeb mabwysiadu newydd ac absenoldeb rhiant.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn amnewid amrywiol reoliadau yn Rheoliadau 2013 fel a ganlyn.

Mae rheoliad 2(2) yn rhoi rheoliad 14 newydd yn lle'r un bresennol, sy'n rhagnodi amodau y mae rhaid i aelod eu bodloni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer absenoldeb mabwysiadydd. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y caniateir amrywio hyd absenoldeb mabwysiadydd neu'r dyddiad y mae absenoldeb mabwysiadydd yn dechrau.

Mae rheoliad 2(3) yn rhoi rheoliad 15 newydd yn lle'r un bresennol, sy'n darparu mai cyfnod absenoldeb mabwysiadydd yw 26 o wythnosau oni bai bod yr aelod yn darparu hysbysiad ysgrifenedig i'r gwrthwyneb (o dan reoliad 14) neu'n terfynu'r cyfnod absenoldeb mabwysiadydd (o dan reoliad 17A).

Mae rheoliad 2(4) yn rhoi rheoliad 16 newydd yn lle'r un bresennol, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch pryd y caniateir i gyfnod absenoldeb mabwysiadydd ddechrau.

2021 No. 243 (W. 63)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Family Absence for Members
of Local Authorities (Wales)
(Amendment) Regulations 2021

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Family Absence for Members of Local Authorities (Wales) Regulations 2013 (S.I. 2013/2901 (W. 280)) ("the 2013 Regulations").

The 2013 Regulations make available to members of local authorities entitlements to periods of family absence. There are five types of family absence: maternity absence; newborn absence; adopter's absence; new adoption absence and parental absence.

Regulation 2 of these Regulations substitutes various regulations in the 2013 Regulations as follows.

Regulation 2(2) substitutes a new regulation 14, which prescribes conditions that a member must satisfy in order to qualify for adopter's absence. It also makes provision about how the duration of adopter's absence or the date on which adopter's absence begins may be varied.

Regulation 2(3) substitutes a new regulation 15, which provides that the period of adopter's absence is 26 weeks unless the member provides written notice to the contrary (under regulation 14) or brings the period of adopter's absence to an end (under regulation 17A).

Regulation 2(4) substitutes a new regulation 16 which makes provision about when the period of adopter's absence may start.

Mae rheoliad 2(5) yn rhoi rheoliad 17 newydd yn lle'r un bresennol, sy'n darparu, yn ddarostyngedig i reoliad 16, y caniateir i aelod o awdurdod lleol (fel y'i diffinnir yn adrannau 33 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011) ddewis pryd y mae ei absenoldeb mabwysiadydd yn dechrau.

Mae rheoliad 2(6) yn mewnosod rheoliad 17A newydd sy'n gwneud darpariaeth ynghylch sut y caiff aelod o awdurdod lleol derfynu ei absenoldeb mabwysiadydd yn gynharach na diwedd y cyfnod a bennir yn rheoliad 15, y rhoddwyd hysbysiad yn ei gylch o dan reoliad 14(b)(ii) neu a amrywiwyd o dan reoliad 14(d).

Mae rheoliad 2(7) yn diwygio rheoliad 38 fel ei fod yn gymwys i absenoldeb mabwysiadydd. O ganlyniad, caiff aelod o awdurdod lleol fod yn bresennol mewn cyfarfodydd a chyflawni dyletswyddau yn unol â'r rheoliad hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Regulation 2(5) substitutes a new regulation 17 which provides that, subject to regulation 16, a member of a local authority (as defined in section 33 of the Local Government (Wales) Measure 2011) may choose when their adopter's absence is to start.

Regulation 2(6) inserts a new regulation 17A which makes provision about how a member of a local authority can bring their adopter's absence to an end earlier than the end of the period specified in regulation 15, which was notified under regulation 14(b)(ii) or varied under regulation 14(d).

Regulation 2(7) amends regulation 38 so that it applies to adopter's absence. As a result, a member of a local authority may attend meetings and perform duties in accordance with that regulation.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Local Government Strategic Finance Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2021 Rhif 243 (Cy. 63)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar
gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol
(Cymru) (Diwygio) 2021**

Gwnaed

3 Mawrth 2021

Yn dod i rym

1 Ebrill 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 26(1), (2), (4) a (5)(a) o Fesur Llywodraeth Leol 2011(1).

Yn unol ag adran 172(2)(a)(2) o'r Mesur hwnnw, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021.

2021 No. 243 (W. 63)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**The Family Absence for Members
of Local Authorities (Wales)
(Amendment) Regulations 2021**

Made

3 March 2021

Coming into force

1 April 2021

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 26(1), (2), (4) and (5)(a) of the Local Government (Wales) Measure 2011(1).

In accordance with section 172(2)(a)(2) of that Measure, a draft of these Regulations was laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Family Absence for Members of Local Authorities (Wales) (Amendment) Regulations 2021.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2021.

- (1) 2011 mccc 4. Hepgorwyd adran 26(3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 gan adran 61(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1), gan ddileu'r terfyn ar hyd absenoldeb mabwysiadwyd y caniateir ei bennu mewn rheoliadau. Gweler adran 33 am y diffiniad perthnasol o "rheoliadau" ac adran 175 am y diffiniad o "rhagnodedig".
- (2) Mae'r cyfeiriad yn adran 172(2) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Diwygiwyd adran 172(2)(a) gan adran 150(1)(b)(i) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021; mae adran 150(1)(b)(ii) hefyd yn gwneud diwygiad arall i adran 172(2)(a) nad yw mewn grym etc.

- (1) 2011 nawm 4. Section 61(4) of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1) omitted section 26(3) of the Local Government (Wales) Measure 2011, thereby removing the limit on the length of adopter's absence that may be specified in regulations. See section 33 for the relevant definition of "regulations" and section 175 for the definition of "prescribed".
- (2) The reference in section 172(2) to the National Assembly for Wales now has effect as a reference to Senedd Cymru, by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32). Section 172(2)(a) was amended by section 150(1)(b)(i) of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021; section 150(1)(b)(ii) also makes another amendment to section 172(2)(a) which is not yet in force.

Diwygio Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013

2.—(1) Mae Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 14 rhodder—

“Amodau rhagnodedig

14. At ddibenion adran 26(1) o'r Mesur, yr amodau rhagnodedig yw—

- (a) bod yr aelod yn fabwysiadydd i'r plentyn;
- (b) bod yr aelod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r penneth gwasanaethau democraidd am—
 - (i) y dyddiad y mae'r aelod yn bwriadu i absenoldeb y mabwysiadydd ddechrau; a
 - (ii) hyd y cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd y mae'r aelod yn bwriadu ei gymryd, os yw'n llai na 26 o wythnosau;
- (c) pan fo'r aelod yn dymuno amrywio dechrau'r absenoldeb mabwysiadydd sydd wedi ei bennu o dan baragraff (b)(i), bod yr aelod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r penneth gwasanaethau democraidd o'r dyddiad dechrau newydd o leiaf un wythnos cyn y dyddiad a bennir o dan baragraff (b)(i), neu o leiaf un wythnos cyn y dyddiad newydd, pa un bynnag sydd gynharaf, neu, os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol; a
- (d) pan fo'r aelod yn dymuno amrywio hyd yr absenoldeb mabwysiadydd, bod yr aelod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r penneth gwasanaethau democraidd o'r hyd newydd o leiaf un wythnos cyn diwedd y cyfnod o absenoldeb a ddisgwylir yn unol â'r hyd a bennwyd o dan baragraff (b)(ii), neu o leiaf un wythnos cyn diwedd arfaethedig newydd y cyfnod o absenoldeb, pa un bynnag sydd gynharaf, neu os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.”

Amendments to the Family Absence for Members of Local Authorities (Wales) Regulations 2013

2.—(1) The Family Absence for Members of Local Authorities (Wales) Regulations 2013(1) are amended as follows.

(2) For regulation 14 substitute—

“Prescribed conditions

14. For the purposes of section 26(1) of the Measure, the prescribed conditions are that—

- (a) the member is the child's adopter;
- (b) the member gives the head of democratic services written notice of—
 - (i) the date the member intends the adopter's absence to start; and
 - (ii) the duration of the period of adopter's absence the member intends to take, if less than 26 weeks;
- (c) where the member wishes to vary the start of the adopter's absence which has been specified under paragraph (b)(i), the member gives the head of democratic services written notice of the new start date at least one week before the date specified under paragraph (b)(i), or at least one week before the new date, whichever is the earlier, or, if that is not reasonably practicable, as soon as is reasonably practicable; and
- (d) where the member wishes to vary the duration of the adopter's absence, the member gives the head of democratic services written notice of the new duration at least one week before the expected end of the period of absence in accordance with the duration specified under paragraph (b)(ii), or at least one week before the new intended end of the period of absence, whichever is the earlier, or if that is not reasonably practicable, as soon as is reasonably practicable.”

(1) O.S. 2013/2901 (Cy. 280).

(1) S.I. 2013/2901 (W. 280).

(3) Yn lle rheoliad 15 rhodder—

“Y cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd”

15.—(1) Y cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd yw 26 o wythnosau, oni bai bod yr aelod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o dan reoliad 14(b)(ii), (d) neu 17A y bydd y cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd yn llai na 26 o wythnosau.

(2) Pan fo mwy nag un plentyn yn cael ei leoli gyda'r aelod fel rhan o'r un trefniant, nid oes gan yr aelod yr hawl i absenoldeb mabwysiadydd ond mewn perthynas â'r plentyn cyntaf a leolir gyda'r aelod ar gyfer ei fabwysiadu.”

(4) Yn lle rheoliad 16 rhodder—

“Pryd y chaniateir cymryd absenoldeb mabwysiadydd”

16. Ni chaniateir cymryd absenoldeb mabwysiadydd ond fel ei fod yn dechrau naill ai—

- (a) ar y diwrnod y mae'r plentyn yn cael ei leoli gyda'r aelod ar gyfer ei fabwysiadu; neu
- (b) ar unrhyw un o'r 14 o ddiwrnodau cyn y diwrnod hwnnw.”

(5) Yn lle rheoliad 17 rhodder—

“Aelod i ddewis dyddiad dechrau'r absenoldeb mabwysiadydd”

17. Yn ddarostyngedig i reoliad 16, caiff aelod ddewis ar ba ddyddiad y mae ei absenoldeb mabwysiadydd i ddechrau.”

(6) Ar ôl rheoliad 17 mewnosoder—

“Terfynu cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd”

17A. Caiff aelod derfynu cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd yn gynharach na diwedd y cyfnod a nodwyd yn rheoliad 15, a hysbyswyd o dan reoliad 14(b)(ii) neu a amrywiwyd o dan reoliad 14(d) drwy hysbysu'r pennath gwasanaethau democrataidd yn ysgrifenedig o'i fwriad i wneud hynny o leiaf 7 niwrnod cyn iddo ddychwelyd.”

(7) Yn rheoliad 38(1), ar ôl “absenoldeb mamolaeth” mewnosoder “, absenoldeb mabwysiadydd”.

(3) For regulation 15 substitute—

“Period of adopter's absence”

15.—(1) The period of adopter's absence is 26 weeks, unless the member gives written notice under regulation 14(b)(ii), (d) or 17A that the period of adopter's absence will be shorter than 26 weeks.

(2) Where more than one child is placed with the member as part of the same arrangement, a member is entitled to adopter's absence only in respect of the first child placed with the member for adoption.”

(4) For regulation 16 substitute—

“When adopter's absence may be taken”

16. Adopter's absence may only be taken so as to begin either—

- (a) on the day on which the child is placed with the member for adoption; or
- (b) on any of the 14 days preceding that day.”

(5) For regulation 17 substitute—

“Member to choose start date of adopter's absence”

17. Subject to regulation 16, a member may choose the date on which their adopter's absence is to start.”

(6) After regulation 17 insert—

“Bringing a period of adopter's absence to an end”

17A. A member may bring a period of adopter's absence to an end earlier than the end of the period set out in regulation 15, which was notified under regulation 14(b)(ii) or varied under regulation 14(d) by notifying the head of democratic services in writing of their intention to do so at least 7 days before their return.”

(7) In regulation 38(1), after “maternity absence” insert “, adopter's absence”.

Julie James

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
3 Mawrth 2021

©® Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
3 March 2021

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/243>

ISBN 978-0-348-20767-5

A standard linear barcode representing the ISBN 978-0-348-20767-5.

9 780348 207675